
AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 253 Ebrill - Mai 2025

# Gwyliedydd



# O’R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



Pasg Hapus! Pan ddaw’r *Gwyliedydd* yma o’r wasg, bydd y dydd yn ymestyn, y gerddi yn blodeuo, yr adar yn nythu a’r ŵyn bach yn prancio yn y caeau. Mae wedi bod yn aeaf hir, gwlyb a thywyll, ac yn anodd iawn i rai. Mae Sul y Pasg yn hwyr eleni ond cawn edrych ymlaen ar ôl tymor y Grawys at ddathlu atgyfodiad Iesu ac at brofi eto y llawenydd, yr heddwch, y goleuni a’r gobaith a ddaw o ganlyniad i’r Atgyfodiad. Mae tymhorau’r Pasg a’r gwanwyn yn dymhorau gobaith, gan addo bywyd newydd, dechreuadau newydd a ffyrdd newydd i brofi cariad anfeidrol ein Duw. Haleliwia!

Duw a ŵyr fod arnom angen mwy o obaith ar hyn o bryd. Diolch byth am y rhai sydd wedi ymateb i’r angen hwnnw, hyd yn oed heb sylweddoli, efallai. Rwy’n meddwl, er enghraifft, am y Pab Ffransis a gyhoeddodd ei hunangofiant, *Hope,* ac am Eglwys Loegr a’i deunydd defosiynol ar gyfer y Grawys eleni ar thema gobaith. Rhaid bod yna rywbeth yn yr awyr, ac o fewn ein Synod, oherwydd yn ôl ym mis Ionawr cyfarfu nifer o’n gweinidogion am encil 48 awr o dan arweiniad y Parchedig Ddr Roger Walton, cyn-Lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd a sylfaenydd ‘Ffordd Fethodistaidd o Fyw.’ Thema Roger oedd ‘Living Hope in Troubled Times,’ thema fwy perthnasol nag y buasai neb wedi meddwl pan aethom ati i drefnu’r digwyddiad, fisoedd ynghynt. Mae dwy ffordd i ddeall teitl Roger: ydy o’n cyfeirio at obaith byw ynteu byw gobaith? Mi fues i’n pendroni am hyn wrth geisio paratoi cyhoeddusrwydd dwyieithog! Sut fuasech chi’n deall y teitl? Mae’n rhywbeth i’w ystyried. Does dim angen dewis rhwng y ddau, wrth gwrs – gwell o lawer byw gobaith byw, yng nghariad a nerth Iesu!

Ysbrydolwyd Roger i ddewis y thema hon gan lyfr o’r enw *Active Hope: How to Face the Mess We’re in Without Going Crazy* gan Joanna Macy a Chris Johnstone. Cyhoeddwyd y llyfr hwn yn 2012. Roedd y byd mewn tipyn o lanast bryd hynny, ond 13 o flynyddoedd yn ddiweddarach, teimlaf fod y teitl yn broffwydol, ac rwy’n ei gymeradwyo i chi. Dydy o ddim yn llyfr Cristnogol fel y cyfryw ond mae’r ethos yn cyseinio efo’r efengyl, sy’n fy atgoffa i o eiriau Iesu, “Y sawl nid yw yn ein herbyn, drosom ni y mae” (Marc 9: 40). Dydy’r adeg bresennol ddim yn amser i bobl o ewyllys da ffraeo, ond hytrach i gydweithio!

Beth yw ‘Active Hope,’ yn ôl yr awduron, felly? Mae’n cydblethu â chysyniad Roger Walton o fyw gobaith/gobaith byw oherwydd mae’n obaith sy’n weithredol ac ymarferol. Mae’n gweithredu er mwyn gwneud gwahaniaeth i’r llanast sydd gennym ni. Mae Macy a Johnstone yn dweud fod tri cham: gweld y realiti; adnabod ein gobaith; cymryd camau i’r cyfeiriad hwnnw. Dydy o ddim yn wyddor roced, ac eto maen nhw’n cydnabod mor anodd yw gweithredu efo gobaith. Mewn sefyllfa felly, mae yna bedwar cam arall: dechrau o safbwynt diolchgarwch; parchu ein poen am y byd; gweld pethau efo llygaid newydd ac wedyn mentro ymlaen. Pan fyddwn yn ddiolchgar ac yn gweld y positif, mae’n ein cryfhau ni i wynebu’r negyddol; heb gydnabod ein poen, allwn ni ddim delio efo fo; mae gweld y da mewn sefyllfaoedd yn datguddio i ni’r adnoddau sydd gennym i ymateb, ac wrth i ni fentro ymlaen, gallwn weld y camau positif posibl.

Heblaw hynny, i fi, prif neges Macy a Johnstone yw pwysigrwydd gweithredu efo’n gilydd. Ar ein pennau ein hunain, tueddwn i deimlo’n ddiobaith ac yn wan; efo pobl eraill o’n cwmpas ni, yn cydweithio, does dim diwedd ar beth y gallwn ei gyflawni. Mae’n bosib byw gobaith byw a gwneud gwahaniaeth, efo egni a nerth ar gyfer y daith hir sydd o’n blaenau. Rwy’n gweld pwynt diwinyddol pwysig yma, pwynt sy’n hynod o berthnasol i dymor y Pasg, oherwydd fel Cristnogion, fe wyddom am bresenoldeb y Crist atgyfodedig efo ni, trwy nerth ei Ysbryd Glân. Trwy ei farwolaeth, concrodd Iesu farwolaeth a phopeth sy’n bygwth ein dinistrio ni. Mae gennym ni obaith o’n mewn yn barod, ac mae gennym ni obaith i’w gynnig i eraill wrth i ni gydweithio dros fyd teg, cyfiawn a heddychlon – yn syml, wrth i ni weithio (a gweddïo) dros ddyfodiad Teyrnas Dduw yn ei holl gyflawnder. Mae’n bosib! Mae Iesu wedi atgyfodi ac er gwaethaf pawb a phopeth, mae gobaith byw – gobaith gweithredol – yn bosib!

Fy ngweddi drosoch yw y byddwn yn profi holl gariad, llawenydd, tangnefedd a gobaith y Pasg, y tymor hwn, er mwyn i ni wynebu’r llanast efo’n gilydd! Pob bendith i chi oll.




# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN CYMRAEG YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 253**
**EBRILL – MAI 2025**

**Dylid gwneud sieciau yn daladwy i “Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru”**

**(NID “i’r Gwyliedydd” os gwelwch yn dda)**

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@gmail.com



**DYDDIAD CAU**
10 MAI 2025





Llun y clawr: **Llanddwyn gan Derec Owen**


Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa


## Diolch

**Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu’r *Gwyliedydd*.**

| | |
|---|---|
| Dienw | £10 |
| C. Brian Price, Deiniolen | £20 |
| Emyr a Gweryl Evans, Coedpoeth er cof annwyl am eu rhieni | £20 |
| Gwendolen Madog Griffith, Deiniolen | £20 |
| Irfon ac Eilwen Morris, Llanfairpwll | £20 |
| Drws Agored, Shiloh, Tregarth | £100 |
| **Cyfanswm** | **£190** |



## DATHLU HANNER CANRIF

Eleni rydym yn dathlu hanner canrif ers dechreuad y cyfamod ecwmenaidd rhwng yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, y Bedyddwyr Cyfamodol a’r Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Cynhelir gwasanaeth i ddathlu, yn yr Eglwys Norwyaidd ym mae Caerdydd am 10 y bore ar 7 Mehefin a’r pregethwr fydd y Parchedig Susan Durber.

## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i’r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law yn ddiweddar:

| | |
|---|---|
| **Seion, Llanrhaeadr-ym-Mochnant** | **£100.00** |
| **Pendref, Dinbych (gwasanaeth carolau)** | **£350.00** |
| **Emyr a Gweryl Evans, Coedpoeth (er cof am ein rhieni annwyl)** | **£ 25.00** |
| **Salem, Rhyd-y-Foel (gwasanaeth Nadolig)** | **£100.00** |


Anfonwyd cyfanswm o £575.00 yn enw Cylchdaith Cymru.

Gyda diolch am bob cyfraniad.

***Ymgyrch Casglu Anrhegion Nadolig.*** Diolch, unwaith eto, i’r eglwysi a’r unigolion sydd wedi cyfrannu i’r ymgyrch. Gwnaethpwyd 4 siwrnai i’r swyddfa yn Wrecsam, gyda mwy na mil o eitemau a £155 mewn cardiau rhodd. Mae’r elusen yn werthfawrogol iawn o’r holl roddion sy’n dod i law trwy’r Apêl arbennig yma.

***Nodyn Personol.*** Diolch i bawb am eich dymuniadau da a’ch ymholiadau yn dilyn fy llawdriniaeth ychydig cyn y Nadolig. Rwyf yn cryfhau yn ddyddiol ond rhaid fy atgoffa fy hun mai dyddiau cynnar yw hi o hyd. Cofion, Margaret

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan
**Llety’r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF**
**01978 756717 cwrteden@gmail.com**



# Y GWANWYN

gan **Carys Briddon**

Onid yw'n braf fod y gwanwyn wedi cyrraedd eto wrth i ni sylwi ar y cyffro, y lliwiau a'r gwahanol synau sydd o'n cwmpas. Mae tymor y gwanwyn yn codi calon person pan wêl fyd natur yn adfywio yn y cloddiau a'r gerddi, a'r cyfan yn deffro o'i gwsg gaeafol. Ynghanol hirlwm y gaeaf tybed sawl claf sydd wedi dyheu am y gwanwyn a'i gysur. Mae'n braf medru ffarwelio â dyddiau hir, tywyll a llwm y gaeaf pan fo'r dydd yn ymestyn gam ceiliog bob dydd o ddechrau'r flwyddyn ymlaen. Dywedodd Duw, 'Bydded goleuadau yn ffurfafen y nefoedd i wahanu'r dydd oddi wrth y nos, ac i fod yn arwyddion y tymhorau'.

Pan oeddwn yn blentyn byddai dyfodiad y gwanwyn yn destun sgwrs am wythnosau yn y pentref wrth weld yr ŵyn bach cyntaf yn prancio yn y caeau, ac wedyn y cymdogion yn gofyn pwy fyddai'r cyntaf i weld y wennol ar ôl iddi hedfan yn ôl i Gymru i nythu o dan y bondo unwaith eto. Cwestiwn arall ar wefusau pawb oedd tybed pwy a glywsai'r gog yn canu am y




tro cyntaf y gwanwyn hwnnw. Dyna beth oedd profiad pleserus, a'i chân undonog i'w chlywed o fore gwyn tan nos. Ond cofiaf fy modryb yn dweud erbyn canol Mehefin ei bod hi wedi alaru clywed y gog yn canu'n barhaus oddi ar y goeden ger ei chartref! Gwaetha'r modd nid yw hynny'n wir mewn llawer ardal erbyn hyn gan nad yw cân y gog i'w chlywed mor aml, a tybed faint ohonom sy'n trafod arferion y gwanwyn fel y gwnaethpwyd cynt.

Roedd y gwanwyn yn dymor pleserus iawn i ni blant ers talwm, pan oedd y tywydd wedi cynhesu a bywyd newydd i'w weld ar y tir. Pleser o'r mwyaf oedd mynd am dro i'r wlad. Roedd gweld y blagur gwyrdd, y cynffonnau ŵyn bach a chlywed sŵn yr adar yn canu yn y coed a'r perthi yn gwneud taith gerdded yn llawer mwy pleserus. Dyna sut y byddem yn dysgu am fyd natur wrth weld y gwahanol anifeiliaid, adar, coed a phlanhigion yn eu cynefin naturiol, a dysgu enwau'r blodau tlws a dyfai yn y cloddiau. Gwyddem yn iawn ble i ddod o hyd i nythod adar yn y gwrychoedd a'r coed, a gwybod nythod pa adar oeddent wrth adnabod maint a lliw yr wyau. Gwyddem am bob math o lecynnau prydferth yn yr ardal a chofiaf am un yn arbennig lle roeddem yn mynd yn flynyddol i gasglu blodau'r briallu a dyfai fel carped melyn ar hyd y cwm. Yr un modd byddai llethr o goed y gwyddem amdani wedi ei lliwio'n las gan fod cynifer o glychau glas yn tyfu o dan y coed. Gwyddwn mai Mam a blannodd y blodau tlws oedd yn ein gardd, ond pwy blannodd y clychau glas, y briallu a'r holl flodau gwyllt? Diolchwn i Dduw am y blodau, yr anifeiliaid a'r hyn oll sydd ar y Ddaear brydferth rydym yn byw arni, yn ogystal â'r gwahanol dymhorau, a mynnwn eu gwarchod er mwyn y cenedlaethau sy'n ein dilyn.

**YN EISIAU**
Swyddog Diogelu ar gyfer Cylchdaith Cymru. I ddechrau mor fuan ag y bo'r modd. Cynigir cydnabyddiaeth ariannol. Cysyllter â'r Parchedig Ian Morris, Arolygwr y Gylchdaith 07707 494348 **revdrian@btconnect.com**

**Fforwm Ffydd (Undeb Athrofa'r Bala)**
Cynhelir Cynhadledd Flynyddol y Fforwm yn Eglwys Unedig Seilo, Llandudno ar ddydd Mawrth **13 Mai 2025**, i ddechrau am 9.45 y bore. Y siaradwr fydd yr Athro Jason Walford Davies: 'Cofio R.S. Thomas, 1913-2000'. Croeso cynnes i bawb. Os hoffech wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Parchedig Eric Jones **ericaval@btinternet.com**





# Dysgu Cymraeg

gan **Angharad Tomos**

Rai wythnosau yn ôl, gwnaeth Keir Starmer **ddatganiad** yn Senedd Prydain i ddweud y bydd y Llywodraeth yn **cynyddu ei gwariant ar arfau** 2.5% erbyn 2027. Dyma'r cynnydd mwyaf ers diwedd y Rhyfel Oer. A dwi'n ysgwyd fy mhen ac yn meddwl mai'r peth olaf ydan ni eisiau yw gwario rhagor o arian ar **beiriannau sy'n lladd**.

Dydyn nhw ddim yn eu galw yn hyn wrth gwrs, ond **yn hytrach**, 'gwariant ar **amddiffyn**' er mwyn inni deimlo yn fwy saff. Ond mewn cyfnod fel hwn, dydi gwario ar ragor o arfau ddim yn gwneud i mi deimlo yn fwy saff. Cwbl ydi ystyr 'gwario mwy ar amddiffyn' i mi yw fod y wlad yn paratoi at ryfel.

Ddaru gwario mwy ar arfau wneud i bobl Wcráin deimlo'n saffach? Dydw i ddim yn credu. Mae 43,000 o filwyr Wcráin wedi marw, a byddant yn dal i gyfri'r gost. Dywedir fod 70,000 o filwyr Rwsia wedi colli eu bywydau.

Nid fod ffigurau **ar y raddfa yna** yn **golygu fawr** i mi. Mae'n well gen i edrych ar fanylion unigol. **Am bob gwn a gynhyrchir**, am bob tanc, am bob bwled, mae mwy o berygl i fywyd. Holl bwrpas y pethau hyn yw rhoi diwedd ar fywyd. **Siawns nad ydym** wedi deall y wers honno bellach.



A chost y cynnydd hwn mewn arfau i Brydain? £13.4 biliwn y flwyddyn.

Mewn gwlad sy'n methu fforddio gwario ar ysbytai a doctoriaid, rydym yn berffaith barod i wario mwy ar ladd bywyd nag ar ei achub. Mae'r peth yn ddychryn i mi. Ond rhaid i'r Llywodraeth dorri yn rhywle er mwy fforddio gwario ar arfau. Mae wedi torri ar gymorth tramor.

Wn i ddim amdanoch chi, ond dwi'n credu fod y gwerthoedd yma wyneb i waered.

Mae'n rhaid i ni Gristnogion godi llais. Wfft i'r sawl sy'n deud fod y mater hwn i gyd yn gymhleth.


Mae'r **blaenoriaethau** yn reit amlwg i mi.

Waldo roddodd y cyfan mewn cerdd, ac mae angen i ni gofio'r geiriau hyn yn ddyddiol:

'Cenedl dda a chenedl ddrwg -
Dysgent hwy mae **rhith** yw hyn,
Ond goleuni Crist **a ddwg**
Ryddid i bob dyn a'i myn.
**Gwyn eu byd**, daw dydd a'u clyw
**Dangnefeddwyr**, plant i Dduw.

Nation good or nation bad
(So they taught) is fantasy.
In Christ's light is freedom had
For any man that would be free.
Blest, the day dawns that will hear them,
Peacemakers, children of God.

**d/ddaganiad** – statement
**cynyddu ei gwariant ar arfau** – increase its expenditure on arms
**p/beiriannau sy'n lladd** – machines that kill
**yn hytrach** – rather
**amddiffyn** – defend
**ar y raddfa yna** – on that scale
**golygu fawr** – mean a lot
**Am bob gwn a gynhyrchir** – For every gun that is produced
**Siawns nad ydym** – surely we have
**blaenoriaethau** – priorities
**rhith** – illusion
**a ddwg** – will bring
**Gwyn eu byd** – blessed are they
**Tangnefeddwyr** – Peace makers





## Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
## The Historical Society of the Methodist Church in Wales

**Edward Jones**
Adleolir carreg goffa Edward Jones, Bathafarn, o'r capel yn Rhuthun nas defnyddir mwyach, i Eglwys Llanrhydd ger Rhuthun. Am **2pm ar ddydd Sadwrn 10 Mai** cynhelir cyfarfod yn Llanrhydd i nodi adleoli'r gofeb a chofio dechreuadau Wesleaeth Gymraeg. Croeso cynnes iawn i bawb.

2pm Saturday 10th May: the memorial stone of Edward Jones, Bathafarn, is to be unveiled at Llanrhydd Church near Ruthin. Everyone is most welcome: the Historical Society is open to everyone, celebrating as it does the history of the whole of Methodism in Wales. Edward Jones, from the nearby Bathafarn farm, was one of the founders of Welsh Methodism. An interesting article about the Bathafarn family can be found here: https://journals.library.wales/view/1050541/1050542/18#?cv=18&xywh=-1281%2C153%2C4773%2C2690



**Darlith Hanes**
Bydd yr hanesydd poblogaidd Bob Morris yn traddodi darlith ym Mhabell y Cymdeithasau 2 ar Faes y Brifwyl yn Wrecsam a'r testun fydd **Cofio Tegla**. Prynhawn dydd Mawrth 5ed o Awst 2025, 3.30pm.

You are also warmly invited to a lecture at the National Eisteddfod, 5th August, about Edward Tegla Davies, Methodist minister and author. Simultaneous translation can be provided if the need is made known in advance - please contact robinbethel@ tiscali.co.uk

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## Shiloh Newydd, Tregarth

### PEN-BLWYDD YN SELAND NEWYDD
Llongyfarchiadau i Helen Wyn Jones ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar a hynny gyda ffrindiau yn Seland Newydd lle bu hi'n byw am bymtheg mlynedd. Erbyn i'r rhifyn hwn ddod o'r wasg bydd Helen adre ac yn mwynhau cwmni criw Drws Agored ar fore Gwener a'r oedfaon yn Shiloh.



### CRUFTS
Llongyfarchiadau i Nia a Kevin Hughes, Tyddyn Dicwm Bach, ar eich llwyddiant eithriadol yn ennill dwy wobr yn Sioe Gŵn enwog Crufts. Fe enillodd Razz yr 2il wobr yn ei dosbarth a Haf y 4edd wobr yn ei dosbarth hithau.

### DYMUNIADAU GORAU
Dymuniadau gorau a phob bendith i Heledd, merch Rhian Evans-Hill, a Chris ar enedigaeth eu mab bach, Gruffudd Twm. Llongyfarchiadau oddi wrthym ni oll i chi fel teulu.
**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

## Ebeneser, Eglwysbach

### BEDYDD
Ar fore Sul 26 Ionawr bedyddiwyd Gwawr Melangell Bickerton, merch fach Gareth a Gwenfair Bickerton, Lloran Uchaf, Llansilin. Cafwyd gwasanaeth bendithiol a chartrefol iawn o dan arweiniad y Parchedig Roger Roberts, a lluniaeth wedyn yn y festri. Braf iawn oedd cael cwmni y ddau deulu ynghyd ag aelodau'r capel i ddathlu'r achlysur arbennig hwn.
**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER



## Ebeneser, Dolgellau



### CYFARCHION PEN-BLWYDD ARBENNIG
Llongyfarchiadau enfawr i Mrs Mary Davies ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar 20 Chwefror. Mae Mary wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod yn ddiweddar yng Nghartref y Bae, Tywyn a braf oedd cael ei chroesawu atom i'r oedfa ar fore Sul 9 Mawrth. Yn dilyn y gwasanaeth cawsom de parti bach i ddathlu'r achlysur arbennig hwn, y tro cyntaf inni ddathlu pen-blwydd un o'n haelodau yn 100 oed!

### CROESO
Rydym yn falch iawn o gael croesawu Jo a David Austin o Borthmadog i'r oedfaon ar fore Sul. Maent yn addoli gyda ni ers mis Hydref y llynedd ac mae Jo am drosglwyddo ei haelodaeth atom.

### CYDYMDEIMLO
Anfonwn ein cydymdeimlad at Ann Williams sydd wedi colli ei brawd, Iorwerth Evans, Abergynolwyn, ar 16 Chwefror. Meddyliwn amdani a'r holl deulu yn eu colled.

### CARTREF NEWYDD
Pob dymuniad da i Ron ac Andrea Phillips yn eu cartref newydd yn Swydd Derby.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## Salem, Rhyd y Foel

### LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchiadau i Glenys Thomas ar gwblhau "zumbathon" noddedig er budd Ysbyty Alder Hey. Tipyn o gamp!

### PANTOMEIM
Ddydd Sul, Ionawr 12fed aeth rhai o'r aelodau â phlant yr Ysgol Sul draw i Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug i weld cynhyrchiad o'r pantomeim "Mother Goose". Roedd pawb wedi mwynhau'r sioe yn fawr – yn llawn hwyl a sbri. Diolch i Esther am drefnu.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## Ebeneser, Treuddyn

### GWASANAETH DYDD GWEDDI'R BYD
Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Ebeneser ar ddydd Sul, Mawrth 9fed. Merched Ynysoedd Cook oedd wedi paratoi'r rhaglen eleni ar y thema 'Rwyf wedi eich gwneud yn rhyfeddol'. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth dwyieithog gan rai o aelodau Ebeneser, aelodau Eglwys y Santes Fair a chyn aelodau Capel y Rhos.

### NEWID AMSER EIN GWASANAETHAU
Gyda'r awr yn newid ddiwedd mis Mawrth, bydd amser ein gwasanaethau yn newid o'r prynhawn i 6 o'r gloch yr hwyr. Byddwn yn cynnal gwasanaeth dwyieithog ar Fawrth 23ain pan fydd Mrs Siân Williams efo ni am 2.30yp. Bydd ein Rali flynyddol ar Fehefin 8fed dan arweiniad y Parchedig Jeanette Wilkes. Bydd hwn hefyd yn wasanaeth dwyieithog ac estynnwn groeso cynnes iawn i bawb ymuno â ni.

### GWASANAETH DYDD GWENER Y GROGLITH
Ar ddydd Gwener y Groglith, Ebrill 18fed am 10.30 y bore cynhelir gwasanaeth Cymun dan ofal y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans ac am 6 yr hwyr, nos Sul y Pasg, bydd Ms Llinos Mary Jones gyda ni. Estynnir croeso cynnes i bawb.

### CODI ARIAN
Ar ddydd Sadwrn, Ebrill 12fed am 3 y pnawn byddwn yn cynnal Te Prynhawn yng Nghanolfan Hafan Deg. Pris mynediad fydd £4.00. Bydd yr elw yn mynd tuag at waith cynnal a chadw'r capel.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES



## Bethel, Rhiwbeina

### DATHLU
Yn dilyn y gwasanaeth ar 9 Chwefror bu cyfle i fwynhau paned a chacen wrth i ni ddymuno 'Pen-blwydd Hapus' i Gwilym Roberts. Mae Gwilym wedi cyrraedd 90 oed ac yn canu'r organ bob bore Sul ym Methel, yn ddi-dor bron ers blynyddoedd lawer. Rydym yn gwerthfawrogi ei ffyddlondeb yn fawr. Wrth yfed ei baned cafodd ei synnu o weld ar y sgrin deledu lu o wynebau cyfarwydd o Batagonia. Roedd yna unigolion, grwpiau a theuluoedd, i gyd yn eu tro yn gweiddi neu yn canu 'Pen-blwydd Llawen, Gwilym!'. Diolch i Llinos Howells am gasglu'r cyfarchion ac i Wyn a Julie Jones am y gwaith technegol. Diolch hefyd i Julie am y gacen flasus.

### YR YSGOL SUL
Braf oedd gweld nifer o blant wedi dod i'r capel ar gyfer yr Ysgol Sul ar Chwefror 16. Cynhelir yr Ysgol Sul nesaf ar Fawrth 16.

### DYMUNIADAU GORAU
Ym mis Mawrth edrychwn ymlaen at groesawu ein gweinidog yn ôl i'n plith unwaith eto a dymunwn iddo iechyd da.

### OEDFAON
Ym mis Chwefror cawsom gyfle i groesawu'r Parchedig Denzil John a Gwyndaf Roberts a chafwyd hefyd wasanaethau yng ngofal rhai o'r aelodau. Diolch yn fawr i Mair Davies a Rosina Davies am baratoi gwasanaeth diddorol yn olrhain hanes tri o emynwyr enwog Cymru. Yn ystod y gwasanaeth cawsom fwynhau unawd gan Mimi Francis.
**GOHEBYDD .** GWENDA FRANCIS



### RHODD
Ar Sul olaf mis Chwefror roedd y gwasanaeth yng ngofal tri o ffyddloniaid y capel sef Howel James a Nerys a Tom Smith. Mae Nerys a Tom wedi cyflwyno rhodd hyfryd i'r capel – llun o Fethel wedi ei beintio gan Jane Smith, merch Tom.



## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

### CYDYMDEIMLO
Cynhaliwyd angladd Geraint Jones, mab Mrs Jane Jones a'r diweddar Alun Jones, brynhawn dydd Iau, Chwefror 27 yn Amlosgfa Bae Colwyn. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Jane a hefyd ei chwiorydd Marian Bond a Siân Garstang a'r teulu oll yn eu profedigaeth sydyn. Roedd Geraint yn un o blant Ysgol Sul Preswylfa flynyddoedd yn ôl. Ei gwmni ef wnaeth atgyweirio adeilad Preswylfa beth amser yn ôl ac felly mae ôl ei waith i'w weld yn y capel hyd heddiw.

### LLONGYFARCHIADAU
Dymunwn longyfarch Marian a Paul Bond ar ddathlu 45 mlynedd o fywyd priodasol.

### COFION
Anfonwn ein dymuniadau gorau fel Eglwys at Gordon Evans, ein horganydd, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Gwellhad buan, Gordon. Cofion hefyd at eraill o'n haelodau sydd ddim wedi bod yn dda ac yn methu mynychu'r oedfaon yn ddiweddar.
**GOHEBYDD .** LLINOS GARSTANG

## Pendref, Dinbych

### OEDFAON PENDREF
Yn ystod Ionawr a Chwefror cawsom gwmni'r Hybarch Bernard Thomas, y Parchedig Marc Morgan, Royce Warner, Dr Prydwen Elfed Owens a Celfyn Williams a mawr yw ein diolch iddynt oll am eu gwasanaeth. Ar y trydydd Sul yn Ionawr, yn unol â'r traddodiad Wesleaidd yma ym Mhendref cynhaliwyd gwasanaeth Adnewyddu'r Cyfamod dan ofal Hywel Evans. Hywel oedd blaenor mis Ionawr, gyda Heulwen Ellis yn gofalu am fis Chwefror. Diolch i Vera Savage am gyfeilio ac i Gwyn Williams am arwain y canu.



### GŴYL DEWI
Dydd Sul Mawrth 2il cynhaliwyd oedfa undebol Gŵyl Dewi tref Dinbych yng nghapel Lôn Swan. Yr Hybarch Bernard Thomas oedd yn pregethu. Ar ran Pendref cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Eryl Davies.

### CYDYMDEIMLO
Cydymdeimlwn yn ddwys ag Elfed Evans a'r teulu, ar golli ei chwaer Jane Margherita Jones. Roedd yn un o blant yr Eglwys. Bu'r gwasanaeth angladd yma ym Mhendref ar Ionawr 31ain, dan ofal y Parchedig Marc Morgan.

### DYDD GWEDDI'R BYD
Dydd Gwener Mawrth 7fed cynhaliwyd cyfarfod undebol Dydd Gweddi'r Byd yma ym Mhendref, gyda nifer o chwiorydd Pendref yn cymryd rhan flaenllaw. Trefnwyd y deunydd technegol gan Medwyn Jones. Mwynhawyd paned a sgwrs yn festri ucha'r capel yn dilyn y gwasanaeth.

### DYMUNIADAU GORAU
Anfonwn ein cofion at ein haelodau sydd ar hyn o bryd, am wahanol resymau, yn methu â mynychu'r oedfaon.
**GOHEBYDD .** MARY JONES

# O'R LLAN

gan y **Canon Idris Thomas**

## GERBRON PILAT

"Safodd Iesu gerbron y rhaglaw" (Mathew 27:11). Mae'r rhaglaw Rhufeinig hwn, sef Pilat, yn ymddangos yn ganolog yn hanes dioddefaint yr Iesu. Ers pan oeddwn yn blentyn yn yr addoldy yn Ninorwig gynt, deuthum i arfer â chlywed enw Pilat yng ngwasanaethau niferus yr Wythnos Fawr sef yr wythnos sanctaidd cyn y Pasg. Fel y dywedodd yr offeiriad arbennig hwnnw y Canon R. Glyndwr Williams – "Dioddefodd dan Pontius Pilat. Pam mae hwnnw'n cael ei enwi byth a hefyd gan yr Eglwys? Nid â Sul heibio yn y Gadeirlan wychaf na'r Llan ddistadlaf heb iddo gael ei ddwyn ar gof. A dyna sut bydd hi tan ddiwedd amser, mae'n debyg. Rhyfedd i ddyn cyn saled ennill y fath anfarwoldeb."

Enwir Pontius Pilat yn ddiddarfod am fod hynny yn sefydlu Dioddefaint yr Iesu mewn lle ac amser. Gelwid Pilat yn Rhaglaw a dyletswydd bwysicaf Rhaglaw oedd gweinyddu cyfreithiau Rhufain a chasglu'r tollau i gyllid y wlad. Trigai Pilat yng Nghesarea ond deuai gyda'i osgordd i Jerwsalem ar y gwyliau i ofalu na ddigwyddai terfysg ymhlith y tyrfaoedd a ddeuai yno o bob parth o'r byd Iddewig. Daeth Pilat i'w swydd tua'r un adeg ag yr ymddangosodd Ioan Fedyddiwr a pharhaodd ynddi dros dymor gweinidogaeth yr Iesu a sefydlu'r Eglwys Gristnogol. Ar ei ysgwydd ef felly y disgynnodd y cyfrifoldeb o lywodraethu'r dalaith yn y cyfnod rhyfeddaf yn hanes y byd. Cyfnod terfysglyd a gafodd fel rhaglaw am ddeng mlynedd. Disgrifiwyd ef fel unigolyn o gymeriad gwan, anwadal ac ansicr ei farn, hunanol a chreulon, anhyblyg, didrugaredd ac ystyfnig. Cyfeirir at ei fwnglera gweinyddol. Aeth ati unwaith i ddefnyddio arian o gronfeydd y Deml i dalu am gronfa ddŵr i'r ddinas! Daeth diwedd ar ei yrfa wleidyddol yn dilyn ei ymosodiad ar griw o Samariaid a hynny gyda chreulondeb eithafol. Yn dilyn hyn cafodd ei anfon i Rufain i ateb am hyn oll. Ond yn ffodus iddo, bu farw yr Ymerawdwr Tiberiws cyn iddo gael ei osod ar brawf.

Medd Robert ap Gwilym Ddu yn ei englyn "Crist Gerbron Peilat"-

Dros fai nas haeddai, mae'n syn – ei weled
Yn nwylaw Rhufeinddyn;
A'i brofi gan wael bryfyn,
A barnu Duw gerbron dyn.



## AI SIOCLED YW'R PASG?

Dwi wrth fy modd yn bwyta siocled o bryd i'w gilydd ac mae'r dewis amrywiol a lluosog heddiw yn apelio yn fawr. Edrychaf ymlaen yn eiddgar at yr wyau Pasg eleni – maent o bob math a maint! Ond gwn yn iawn nad bwyd ond bywyd yw'r Pasg. Yn Ionawr y llynedd roedd Esgob Caerloyw sef Rachel Treweek wedi cynhyrfu'r dyfroedd (neu'r wyau!) pan aeth ati i feirniadu dwy archfarchnad amlwg am stocio wyau Pasg ar eu silffoedd yn ystod tymor y Nadolig! Gofyn wnaeth yr Esgob i'r ddwy archfarchnad amlwg pam eu bod eisoes wedi gwneud hyn, mor eithriadol o gynnar! Yn ôl un o'r ddwy (ni ddaeth ateb gan y llall) yr ateb oedd fod rhai cwsmeriaid yn hoffi'n fawr tretio eu hunain yn gynnar ag Ŵy Pasg!




Teimlwn oll o hyd golli yr ymroddgar Gareth Maelor ac yn y bennod 'Be ydy'r Pasg?' yn ei lyfr *Helo, pwy sy' na?* dywed yn ddiddorol: "Fel y Nadolig, y Pasg i rai ydi masnacheiddio gŵyl a rhoi elw heb ei fath i Cadbury a Rowntree. Roedd mwy o synnwyr ers talwm wrth fynd o fferm i fferm yn Ynys Môn i glapio wyau. O leiaf roedd hynny'n ennyn tosturi, a thlodion y plwy' oedd yn elwa bryd hynny ar wyau Pasg".

Coeliwch neu beidio, wrth i mi ysgrifennu hyn bore heddiw daeth y postmon â thaflen hynod liwgar a diddorol "The Egg that shares the Easter Story". Ar y clawr dywedir, o'r 80 miliwn o Wyau Pasg siocled a gaiff eu gwerthu bob blwyddyn, mai'r Ŵy Pasg Masnach Deg hwn yw'r unig un sy'n cynnwys stori'r Pasg yn y bocs. Prynwch un a'i rannu eleni eto.

## COFIO RHYTHWYN

Ysgrifennaf hyn o lith ar ôl dychwelyd adref o angladd Rhythwyn Evans yng nghapel Bethel, Silian, Llanbedr Pont Steffan ar ddydd olaf Ionawr. Hunodd ar ei aelwyd, Maes yr Adwy, Silian nepell o'r addoldy, yn 95oed. Cyn hynny bu'n byw am flynyddoedd ar fferm gyfagos Tanygraig gyda'i briod Gwyneth, ac yno y magwyd Dai Charles, Siw ac Aled. Cyfarfyddais ag ef gyntaf yn 1968 pan ddeuthum i Goleg Llambed – roedd yn ewythr i Ann y wraig. Profais garedigrwydd ei aelwyd ac roedd cwmni Rhythwyn a Gwyneth yn gwbl arbennig. Roedd ei atgofion am Brechfa, sef ardal ei blentyndod, ynghyd â'i oes lawn a hir mewn llawer maes, yn rhai i'w trysori. Man addoli'r teulu oedd Eglwys Silian gerllaw a loes, yn naturiol, oedd ei chau. Bu Rhythwyn yn aelod, warden, codwr canu a chlochydd yno.



Daeth enwogrwydd mawr i ran Rhythwyn pan benderfynodd gerdded o gwmpas ei aelwyd yn ystod pandemig Covid sef 91 o weithiau a chasglu £51,000 i Fwrdd Iechyd Hywel Dda. Daeth cerdyn cydymdeimlo â'r teulu yn ddiweddar oddi wrth y Bwrdd Iechyd, yn sôn fod yr arian a gododd yn dal i wneud gwahaniaeth mawr i'r staff ar draws y Bwrdd Iechyd. Roedd yn 91 ar y pryd. Ymdrech arwrol yn wir! Cydymdeimlir â'i briod Gwyneth a'i blant Dai Charles, Siw ac Aled a'u teuluoedd. Trysor o benteulu, cyfaill a chymwynaswr oedd Rhythwyn a thrysor o englyn yn ogystal gawsom gan Siw i'w thad -

Daeth Ionawr a'i awr oera' – a gafael
Fel gefyn mae'r gaea',
ond o'i gae daw'n cynhaea'
o 'sgubau y dyddiau da.

**Siw Jones**

**Atebion cwis (tudalen 16)** 1 A 2 C 3 A 4 C 5 B 6 A




## *Jerwsalem, Wrecsam*



Ar fore Sul 16 Chwefror bedyddiwyd Harriet Evelyn Morgan gan y Parchg Joshua Blunt, yn Eglwys St Joseph, Merryhill, Wolverhampton, sef yr eglwys lle priodwyd ei rhieni Owain a Lucy ac y bedyddiwyd ei brawd, Teddy. Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan dad-cu Hattie, sef y Parchg. Marc Morgan. Braf oedd cael dathlu'r achlysur gyda theulu, ffrindiau ac aelodau'r eglwys.
**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN

## *Sïon, Lloc*

**OEDFA OLAF**
Ar bnawn dydd Gwener 17 Ionawr 2025 daethom ynghyd ar gyfer yr oedfa olaf yn Sïon, Lloc. Cyfle oedd hwn i ddiolch am dystiolaeth Sïon ar hyd y blynyddoedd. Arweiniwyd yr oedfa gan y gweinidog, y Parchg D Marc Morgan. Roedd Mrs Ceinwen Stewart wrth yr organ. Fe gafwyd darlleniad gan Mrs Maryl Rees, fel cynrychiolydd stiwardiaid yr eglwys a Chylchdaith Cymru. Cafwyd gair byr o atgofion gan Mr Gron Ellis a darllenodd Mr Clos Parry ddau englyn o'i waith ei hun. Darllenwyd cyfarchion oddi wrth y Parchg Ddr Jennie Hurd, Cadeirydd Synod Cymru ac un a fu'n weinidog ar yr eglwys. Ar ddiwedd y gwasanaeth chwaraewyd recordiad o *Seren Bethlehem* o 2019, anthem y byddai'r côr yn ei chanu ar ddiwedd y Plygain a gynhelid yn Sïon bob bore Nadolig. Ni wyddem ar y pryd mai hwn fyddai'r Plygain olaf i'w gynnal yn y capel. Wedi'r oedfa cafwyd cyfle i hel atgofion dros baned wedi ei baratoi gan rai o gyfeillion Sïon.
**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN


Ardal Glannau Maelor,
Cylchdaith Cymru, Wales Synod Cymru

Oedfa o ddiolchgarwch
am
Sïon, Lloc

Dydd Gwener 17 Ionawr 2025
am
2 o'r gloch

## *Ardal Bathafarn*

**GWELLHAD**
Anfonwn ein cofion cynhesaf a'n dymuniadau gorau am wellhad buan at Susan James, Gwyddelwern; Beryl Evans, Bathafarn; Elved Jones, Glyndyfrdwy; Enid a Hywel Edwards, Audrey Jones ac Owain Davies.

**CYDADDOLI YN RHUTHUN**
Cynhaliwyd cyfarfod gweddi cyntaf 2025 dan ofal Bathafarn, yn Heol y Parc trwy garedigrwydd Hazel a chyfeillion y capel. Er mor oer oedd y tywydd, daeth criw bach ynghyd a chafwyd gair o groeso gan Elizabeth a chyfraniadau bendithiol gan Teresa o'r Tabernacl, Gwylan o Heol y Parc a Carys o Bethania. Cyfle i gyd-ddarllen a chanu gyda Gwylan yn cyfeilio, a chyfle i fyfyrio yn ein byd heriol a pheryglus gan gofio o hyd fod mwy o ddaioni na drygioni a bod goleuni yn trechu tywyllwch. Daethom ynghyd hefyd ar gyfer Dydd Gweddi'r Byd, gyda Lucy ac Elizabeth yn cymryd rhan o Bathafarn.

**OEDFAON**
Cynhaliwyd oedfaon dan ofal Elizabeth yn Llys Awelon a Glyndyfrdwy a than ofal Hedd ap Emlyn a Llinos Mary Jones yn Llys Awelon, gyda Rhian yn cyfeilio a Rhodri yn llywyddu. Diolch i bawb am eu cenadwri a'u ffyddlondeb bob amser ac rydym yn falch o groesawu preswylwyr Llys Awelon atom.

**CYDYMDEIMLO**
Anfonwn ein cofion cywiraf a'n cydymdeimlad diffuant at Gwyn a Marian Thomas, Corwen, o golli chwaer a chwaer yng nghyfraith sef Dona Baines.

**ORDEINIO'N FLAENOR**
Llongyfarchiadau i Arwel Williams, Graigfechan gynt, ar dderbyn yr anrhydedd o gael ei ordeinio'n flaenor yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru, mewn gwasanaeth arbennig yn Llanfairfechan. Pob bendith, Arwel.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## *Carmel, Moelfre (Ardal Dyffryn Clwyd)*

Hyfryd oedd cerdded i mewn i'r capel ar y Sul cyn y Nadolig a'i weld wedi'i addurno'n hardd. Yr arferiad yw fod pob cartref yn gyfrifol am ffenestr ac felly mae pob un yn wahanol. Nid yw'n gapel mawr ond mi roedd yn orlawn, teuluoedd a phobl ifanc adre am y Nadolig a chyfeillion o'r gymuned wedi troi i mewn i'r oedfa. Roedd yn oedfa ddwyieithog dan ofal y gweinidog, y Parchg Marc Morgan gyda David wrth yr organ. Ar gais 'Anti' Margaret roedd y plant wedi gwisgo fel cymeriadau o stori'r Geni ac wrth iddi hi ddarllen y stori cafodd y plant hwyl fawr – pan glywent enw eu cymeriad, caent weiddi allan 'dyma fi'. Ar ddiwedd yr oedfa cafwyd ymweliad gan Siôn Corn a chyfle i gymdeithasu a sgwrsio dros ddiod sudd poeth a mins pei.
**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN





## *Bethel, Prestatyn*

**GWELLHAD BUAN**
Roeddem yn falch iawn o glywed fod Mrs Eiry Parry wedi dod adref o'r ysbyty. Braf oedd ei chroesawu yn ôl yn yr oedfa Gŵyl Ddewi. Dymunwn adferiad buan i chi, Eiry. Yr un modd, cofiwn yn annwyl at yr holl aelodau sydd yn methu ymuno â ni yn yr oedfaon oherwydd gwaeledd.

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Daniel ap Geraint ar ei lwyddiant ar raglen BBC 2 'The Great British Menu'. Mae Daniel yn Brif Gogydd yng ngwesty Plas Dinas, Bontnewydd. Roedd rhaid iddo greu bwydlen wedi ei hysbrydoli gan enwogion o Gymru a llwyddodd i ennill rownd Cymru, gan fynd mynd ymlaen i gynrychioli Cymru yn y rownd derfynol.

**GWASANAETH GŴYL DEWI**
Diolch i'r aelodau a gymerodd ran yn ein gwasanaeth arbennig i ddathlu dydd ein Nawddsant. Cawsom anerchiad gan Geraint Roberts, yn annog y gynulleidfa i feddwl am eiriau perthnasol yn dechrau gyda llythrennau enw Dewi Sant – 'D' am Dewi, dysgu, doethineb, 'E' am Eglwys, emyn a.y.b. Mwynhawyd unawdau piano gan Arthur a Flora a datganiad gan ein pedwarawd sef Geraint, Philip, Angela a Marianne. Gweddïwyd gan Casi a'i mam a gwelsom sleidiau am fywyd Dewi Sant. Addurnwyd y bwrdd yn y porth ar thema Gŵyl Dewi gan Jane. Mwynhawyd coffi a chacennau cri ar ddiwedd yr oedfa.

**DYMUNIADAU GORAU**
Pob hwyl i'r bobl ifanc sydd wrthi'n paratoi ar gyfer eu harholiadau TGAU a Lefel A ac i bawb sy'n brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.

**DYDD GWEDDI'R BYD**
Daeth aelodau Eglwysi Rehoboth a Bethel at ei gilydd i gynnal Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd, oedd wedi'i baratoi eleni gan chwiorydd Ynysoedd Cook. Trefnwyd y rhaglen gan Gwenda Humphries a Mena Griffith gydag Angela Roberts, Marianne Roberts a Mena Griffith yng ngofal y canu. Roedd yr arddangosfa hardd ar gyfer y bwrdd wedi ei threfnu'n gelfydd gan Jane Ellis.
Cawsom ein hatgoffa mai criw o chwiorydd o Ogledd America oedd yn gyfrifol am sefydlu'r Dydd Gweddi yn y flwyddyn 1887. Eu dymuniad oedd gweld bendith gyfoethog y Nef ar y gwaith cenhadol ar y pryd. Ar Ynys Tonga yn y Môr Tawel y mae'r gweddïo yn dechrau ar y dydd arbennig yma, ac yn mynd rhagddo o gylch y byd fel llinyn arian hyd nes y bydd yn gorffen ar Ynys St. Lawrence y tu draw i Alaska. 'Dydd Gweddi'r Byd' ydi mudiad eciwmenaidd mwya'r byd. Cafwyd amser i drafod a mwynhau paned ar y diwedd.
Gyda rhyfeloedd ar bob tu, a chymaint o anghydfod yn ein byd, fu erioed gyfnod mewn hanes lle bu mwy o angen dod gerbron Duw i ddeisyf am Ei arweiniad, Ei ras a'i gariad na'r dyddiau yma. Eleni felly roedd gwerth arbennig i'n Gwasanaeth ym Mhrestatyn, a diolch i bawb ddaeth ynghyd.
*Diolch i Mrs Nerys Haf Biddulph, un o aelodau Rehoboth, am yr adroddiad yma. Hoffem gymryd y cyfle hefyd i longyfarch Mrs Biddulph ar dderbyn Medal Gee yn ddiweddar.*
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES



**TRIP YSGOL SUL**
Taith i Ganolfan Hamdden Prestatyn oedd dewis y plant eleni. Cawsant hwyl arbennig yn dringo'r wal ddringo ac yn chwarae sboncen. Dyma lun o rai ohonynt yn cael seibiant yn ystod y gweithgareddau.

## *Tabernacl, Llanfyllin*

**SUL Y GWAHANGLEIFION**
Arweiniwyd oedfa arbennig Sul y Gwahangleifion gan Mr Huw Ellis. Cawsom weld fideo oedd yn dangos cymaint y mae'r gwahanglwyf yn effeithio ar unigolion a theuluoedd sy'n dioddef o'r afiechyd. Anfonwyd £320 tuag at yr elusen, sef swm y casgliad a rhoddion a dderbyniwyd. Roedd cyfle i gymdeithasu dros baned wedi'r oedfa. Diolch i Mair Ellis am drefnu a diolch am bob cyfraniad.

**CYDYMDEIMLO**
Daeth ton o dristwch dros y dref pan ddaeth y newyddion annisgwyl bod Dylan Hughes, mab hynaf Mrs Mona Hughes a'r diweddar Robin Hughes wedi marw'n frawychus o sydyn ddiwedd Chwefror. Roedd Dylan yn brifathro uchel ei barch yn un o ysgolion Cymraeg Caerdydd ac yn ŵr i Mari a thad i ddwy o ferched. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad diffuant at ei fam, Mona, a'i frawd, Osian, yma yn Llanfyllin a hefyd at ei wraig a'i ferched yng Nghaerdydd.

**DYDD GŴYL DEWI**
Cynhaliwyd oedfa flynyddol Gŵyl Dewi ym Mhendref. Y gweinidog oedd yng ngofal y gwasanaeth undebol hwn a chawsom ganu emynau gwladgarol a'n hatgoffa o ambell ffaith am Dewi Sant. Roedd Olwen Jones wedi gofalu bod trefniant o Gennin Pedr yn harddu'r capel.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS



**DYDD GWEDDI'R BYD**
Yma yn Llanfyllin fe gynhaliwyd y gwasanaeth, a baratowyd eleni gan chwiorydd Ynysoedd Cook, mewn Iwrt (pabell gron) yng ngardd hyfryd y Cross Keys. Roedd yno deimlad o agosatrwydd, cynhesrwydd a bendith wrth inni gydaddoli. Wedi'r gwasanaeth cawsom baned a chacen drwy garedigrwydd y Parchedig Darren a Shan Mayor. Hefyd roedd Shan wedi paratoi bwydydd traddodiadol yr Ynysoedd a chawsom flasu 'poke' (math o bwdin banana) a hefyd salad tatws pinc, oedd yn flasus iawn! Anfonwyd £80 o gasgliad at elusen Dydd Gweddi'r Byd.




# DEWRDER ANGHYFFREDIN

*gan Glyn Tomos*

Mewn byd mor dymhestlog ag yr ydym ynddo ar hyn o bryd ni ellir ond edmygu a diolch bod gennym unigolion sydd yn dangos dewrder anghyffredin. Mae yna rai yn fodlon sefyll dros eu hegwyddorion a'u hawliau yn wyneb pob math o rwystrau a heriau y mae bywyd wedi eu taflu atynt.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae dwy wraig wedi dod i'r amlwg a'r ddwy yn esgobion, sef yr Esgob Mariann Edgar Budde a'r Esgob Rose Hudson-Wilkin.

Fe gafodd y cyntaf o'r ddwy sef yr Esgob Budde ei sefydlu fel nawfed Esgob Washington yn yr Unol Daleithiau yn 2011 a hi oedd y wraig gyntaf i'w hethol i'r swydd. Fe ddaeth hi i sylw'r byd cyfan yn gynharach eleni. Ar y pryd roedd hi'n arwain Gwasanaeth Gweddi gyda'r Arlywydd Trump yn bresennol yn y gynulleidfa. Yn ei hanerchiad gofynnodd i'r Arlywydd ddangos maddeuant i bobl sydd yn byw mewn ofn yn America. Denodd ei sylwadau ymateb hallt gan rai Gweriniaethwyr gydag un ohonynt yn annog yr Arlywydd i alltudio'r esgob. O fewn munudau i'r esgob apelio ar yr Arlywydd roedd ei neges wedi mynd ar y cyfryngau cymdeithasol fel bod y byd yn dyst i'r hyn a ddywedodd.

Neges yr esgob i'r Arlywydd oedd bod miliynau o bobl wedi rhoi eu ffydd ynddo, gan gynnwys rhai sydd yn ceisio lloches wleidyddol – carfan o bobl, ymysg eraill, y mae Trump mor feirniadol ohonynt. Yn ôl yr Esgob dyma bobl sydd yn glanhau swyddfeydd, yn golchi llestri ar ôl i bobl giniawa mewn bwytai a gweithio sifftiau nos mewn ysbytai. Efallai nad ydynt yn ddinasyddion, nac yn meddu ar y gwaith papur angenrheidiol, ond nid yw'r mwyafrif llethol ohonynt yn droseddwyr. Gofynnodd yr Esgob i'r Arlywydd ddangos trugaredd i rai o fewn y gymdeithas sydd â'u plant yn byw mewn ofn bod eu rhieni yn mynd i gael eu cymryd i ffwrdd.

Yna, gyda'r Arlywydd yn edrych i lawr ar y llawr, fe aeth ymlaen i ofyn iddo helpu'r rhai hynny sydd yn ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth yn eu gwlad eu hunain i geisio lloches a chroeso yn America. Yn ôl yr Esgob mae'r Arglwydd yn ein dysgu i fod yn drugarog wrth bob dieithryn oherwydd bu pawb unwaith yn ddieithriaid yn America. Roedd ei sylwadau yn ymateb i fwriad yr Arlywydd i gyflawni'r alltudiaeth fwyaf yn hanes yr Unol Daleithiau.



Roedd dweud yr hyn a ddywedodd yr Esgob yn ystod y gwasanaeth yn gofyn am gryn ddewrder ar ei rhan a hithau yn anelu ei neges at ddyn mwyaf pwerus y byd. Mae stori'r Esgob nid yn unig yn un o gynnig arweiniad o fewn yr Eglwys ond hefyd o ymroddiad llwyr tuag at greu byd sydd yn fwy cyfiawn, yn decach ac yn fwy cariadus tuag at bawb. Mae'n credu bod Crist yn galw pawb sydd yn ei ddilyn i ymdrechu am gyfiawnder a heddwch, ac i barchu urddas pob unigolyn.

Esgob Dover ac Esgob yng Nghaergaint yw'r Parchedig Rose Hudson-Wilkin. O Jamaica yn wreiddiol, hi yw'r wraig ddu gyntaf i fod yn Esgob ym Mhrydain. Fel merch ifanc roedd ganddi boster ar y wal wrth ymyl ei desg oedd yn darllen: 'Peidiwch â mynd lle mae'r llwybr yn arwain. Yn hytrach ewch lle nad oes llwybr a gadewch ôl eich traed.' A dyna yn union mae hi wedi ei wneud.

Fe gafodd ei geni yng nghanol tlodi a'i hamddifadu o ofal rhieni yn gynnar yn ei bywyd, gan gael ei churo a'i cham-drin pan oedd yn ifanc. Ni ddangoswyd fawr ddim cariad tuag ati. Teimlai wedi ei brifo, ar goll ac ar ei phen ei hun, ond eto fe wyddai bod llaw Duw ar ei bywyd ac na fyddai ei phoen yn ofer. Yr hyn a'i hachubodd oedd ei ffydd. Cafodd ei ffydd afael ynddi a rhoi ystyr bywyd iddi.

A hithau yn Esgob Dover mae amgylchiadau pobl sydd yn ymfudo ac yn dianc rhag rhyfel, erledigaeth neu galedi economaidd yn fater sydd yn dod i'w sylw yn gyson. 'Yr hyn sydd o bwysigrwydd mawr i mi,' meddai, 'yw sut rydym yn trin y rhai mwyaf bregus. Mae hynny yn golygu ffoaduriaid, pobl sydd yn ceisio lloches. Rydym angen gofyn pam bod pobl yn gadael eu mamwlad yn y lle cyntaf. Rwyf wrth gwrs yn deall bod angen atal pobl rhag colli eu bywyd wrth groesi'r môr i Brydain, ond mae angen i ni ofyn pam eu bod yn mentro fel hyn yn y lle cyntaf'.

Er bod rhai Esgobion du o fewn Eglwys Loegr erbyn hyn dywed y Parchedig Rose Hudson-Wilkin na ddylai hynny roi'r argraff bod hiliaeth wedi diflannu o'n cymunedau. Er y dywed mai prif swyddogaeth yr Eglwys yw lledaenu neges o dosturi, maddeuant a heddwch, mae hi hefyd yn amddiffyn yn gryf yr angen i godi llais ar faterion fel anghyfiawnder ac annhegwch. Cred bod yn rhaid i'r Eglwys gael llais gwleidyddol. Roedd gan Grist dosturi ac fe ymyrrodd ar ran y bobl. Felly mae'n rhaid i'r Eglwys hefyd siarad allan am faterion gwleidyddol sydd yn cael effaith ar bobl gyffredin. Efallai nad yw pawb, meddai, o fewn yr Eglwys yn cytuno gyda hi ond nid yw yn poeni am gael ei beirniadu. Nid yw hi am gadw yn ddistaw.

Geiriau cryf ac amserol iawn i bob un ohonom yng nghanol tymor y Garawys.



# O'R PEN YMA

*gan Angharad Tomos*



Mewn rhai dyddiau, byddaf yn mynd ar fy ngwyliau. Gan nad ydym yn hedfan, teithio ar drenau ydan ni, ond dwi'n credu fod y ffordd yma o deithio yn dod yn fwy ffasiynol beth bynnag, gan fod meysydd awyr yn llefydd mor brysur a diflas. Ers i mi ddotio at 'Doctor Zhivago' yn blentyn, dwi wedi bod eisiau mynd ar daith drên hir, a chysgu dros nos arni. Dyna'r rheswm dros ddewis mynd i Dresden.

I'm cenhedlaeth i, dim ond un ddelwedd ddaw i'r meddwl pan glywn enw'r ddinas honno, a hynny ydi tomen o rwbel. Bedwar ugain mlynedd yn ôl, bedwar mis cyn diwedd yr Ail Ryfel Byd, chwalwyd Dresden yn ufflon gan fomiau Prydain a'r Unol Daleithiau. Lladdwyd 25,000 o bobl gyffredin yn eu cartrefi.

Dresden wahanol welwn ni, Dresden wedi atgyfodi o'r rwbel. Eto, o ymweld â'r ddinas, gwn y byddaf yn teimlo'n euog am mai 'ein hochr ni' oedd yn gyfrifol am yr erchyllter. Drwy ein haddysg ffurfiol, cawn ein cyflyru i gredu mai 'ni' yw yr ochr wâr, resymol, a dim ond ein gelynion sy'n peri difrod a lladd anesboniadwy. Sut mae egluro Dresden ta? Taswn i'n un o ddisgynyddion y ddinas, fyddwn i ddim am weld unrhyw ymwelydd o Brydain na'r Unol Daleithiau yn tywyllu'r lle.

Os am ddarllen profiadau un o beilotiaid y 'bombers' yma mewn Cymraeg coeth, darllenwch lyfr Cledwyn Jones, 'Atgofion Awyrennwr'. Meddai ef, 'Bwriad y bomio didrugaredd a dinistriol hwn oedd, nid yn unig dinistrio ffatrïoedd arfau...ond torri calon y trigolion.' Yna, ychwanega nad oedd yn siŵr o lwyddiant y polisi hwn o gofio styfnigrwydd trigolion trefi Lloegr pan oedd bomwyr Hitler yn eu hanterth ym 1941.

Go amheus o'r polisi ydw innau. Ddaru bomio llefydd yn ddarnau rioed ateb dim. Dyna sydd ar fy meddwl wrth weld Gaza y dyddiau hyn. Mae gwybod fod dwy filiwn o bobl yn ceisio byw ar lain bychan o dir yng nghanol yr holl rwbel yn bryder dyddiol i mi. Dywedir fod 10,000 o bobl ar goll neu wedi eu claddu dan y rwbel.

Yr amcangyfrif yw y cymer ugain mlynedd i ail-godi Gaza (oni bai y bydd Trump wedi prynu'r lle i wneud ei 'riviera'!) Ond hyd yn oed yn 2045, bydd y cof yn dal yn eithriadol fyw am alanast 2024. Bydd cenhedlaeth wedi tyfu heb goes neu fraich, bydd nifer uchel iawn o'r oedolion yn rhai a amddifadwyd o rieni. Byddant yn adrodd hanes y bomio i'w plant a'u hwyrion.


Bydd yr ymgais i ddileu pobl Gaza oddi ar wyneb y byd yn rhan o'r hyn fydd yn diffinio y ganrif hon. Wrth i ragor o arweinwyr byd alw am gynnydd yn y gwariant ar arfau ac anfon milwyr i wahanol rannau o'r byd, mae'n gyfnod pryderus. Boed inni fel dilynwyr Crist, Tywysog Tangnefedd, wneud popeth yn ein gallu i fod yn weithredol yn yr ymgyrch i wrthwynebu rhyfel. Nid yw'n rhywbeth anochel, a does dim cyfiawnhad drosto. Siawns nad ydi Dresden a Gaza a sawl lle arall yn brawf o hynny.





# Joseph Parry a 'Myfanwy'

*gan Gareth Blainey*



Prynais lyfr difyr yn ddiweddar. "Wales On This Day - 366 Facts You Probably Didn't Know" ydy teitl y llyfr ac ynddo mae'r awduron Huw Rees a Sian Kilcoyne yn datgelu ffaith sy'n ymwneud â Chymru ar gyfer pob dydd o'r flwyddyn.

Y ffaith ar gyfer 21 Mai ydy bod y gân 'Myfanwy' wedi'i pherfformio am y tro cyntaf ar y dyddiad hwnnw yn 1875 yng nghyngerdd agoriadol Cymdeithas Gerddoriaeth Prifysgol Aberystwyth. Mae union gant a hanner o flynyddoedd felly ers i 'Myfanwy' gael ei chlywed gyntaf ac roedd 21 Mai 1875 hefyd yn ben-blwydd cyfansoddwr y gân sef Joseph Parry (1841-1903), yn 34 oed.

Bardd o Lanbrynmair, Richard Davies (1833-77), oedd yn defnyddio'r enw barddol Mynyddog, ysgrifennodd eiriau 'Myfanwy' a dyma'r bennill gyntaf:

'Paham mae dicter, O Myfanwy,
Yn llenwi'th lygaid duon di?
A'th ruddiau tirion, O Myfanwy,
Heb wrido wrth fy ngweled i?
Pa le mae'r wên oedd ar dy wefus
Fu'n cynnau 'nghariad ffyddlon ffôl?
Pa le mae sain dy eiriau melys
Fu'n denu 'nghalon ar dy ôl?'

Mae hi'n bosibl bod geiriau Richard Davies wedi'u dylanwadu gan stori serch Myfanwy Fychan o Gastell Dinas Brân, Llangollen, a'r bardd Hywel ab Einion, ond Myfanwy hefyd oedd enw cyntaf cariad Joseph Parry pan oedd yn blentyn: Myfanwy Llewelyn. Fel y cerddor, ymfudodd hithau i Unol Daleithiau America a daeth hi'n adnabyddus fel cantores opera gan ddefnyddio'r enw Lena van Ellen.

Cyfansoddodd Joseph Parry y gân mewn pedair rhan ar gyfer côr meibion ond erbyn heddiw mae hi'n cael ei chanu'n aml fel unawd. Gan mlynedd ar ôl i 'Myfanwy' gael ei chyhoeddi, perfformiodd y diweddar Ryan Davies y gân yn y "Top Rank" yn Abertawe yn 1975 a chyn ei chanu dywedodd Ryan: "Ladies and gentlemen, I'm about to sing for you the greatest love song that has ever been written".

Ar adeg y perfformiad cyntaf roedd Joseph Parry wedi dod yn ôl i Gymru o America flwyddyn ynghynt i fod yn Athro Cerddoriaeth cyntaf Coleg Prifysgol Cymru oedd newydd agor yn Aberystwyth. Roedd wedi ymfudo o'i gartref ym Merthyr Tudful i dref Danville yn nhalaith Pennsylvania gyda'i fam a'i frodyr a chwiorydd yn 1854, i ymuno â'i dad oedd wedi mynd yno i chwilio am fywyd gwell. Yn Danville y daeth ei dalent gerddorol i'r amlwg o dan gyfarwyddyd athrawon oedd hefyd wedi symud yno o Gymru.


Yn ogystal â 'Myfanwy' cofir Joseph Parry yn bennaf fel cyfansoddwr yr opera 'Blodwen' a'r emyn-dôn 'Aberystwyth'. Mae nifer o lawysgrifau, llythyrau a lluniau ym Mwthyn Joseph Parry – ei fan geni ym Merthyr – ac mae'r bwthyn yn agored i'r cyhoedd fel amgueddfa.



© JAGGERY

# Câr dy gymydog

*gan Dr Huw Tegid*



Mae'r distryw a welwyd ym Mhalestina, Israel a Llain Gaza dros y flwyddyn a hanner diwethaf yn rhan o wrthdaro sy'n mynd yn ôl canrifoedd. Mae'n adlewyrchiad trist o sut mae pobloedd wedi ei chael hi'n anodd cyd-fyw oherwydd y gwahaniaethau sydd rhyngddyn nhw.

Hyd yn oed ymhlith y rhai sy'n arddel Duw Abraham, Isaac a Jacob yn yr ardal honno, bu'r berthynas rhwng cymdogion yn anodd ar hyd y canrifoedd. Un enw sy'n codi yn aml ym meddyliau pobl wrth feddwl am gymdogion yng nghyd-destun y Beibl ydi'r Samariaid. Pwy oedd y Samariaid, a pham oedd Iesu yn cyfeirio atyn nhw yn ystod ei weinidogaeth? Yn gryno iawn, pobl oedd (ac sydd hyd heddiw) yn credu mewn Un Duw, ac sy'n dilyn ffydd debyg iawn i Iddewiaeth, ydi'r rhai sy'n arddel Samariaeth. Y gwahaniaeth mawr rhyngddyn nhw a'r Iddewon yw eu cred mai Mynydd Garisim, nid Jerwsalem, yw'r gwir le sanctaidd a ddewiswyd gan Dduw. Cyfeiriodd y wraig a ddaeth at Ffynnon Jacob at hynny pan ddywedodd "Yr oedd ein hynafiaid yn addoli ar y mynydd hwn. Ond yr ydych chwi'r Iddewon yn dweud mai yn Jerwsalem y mae'r man lle dylid addoli." Roedd disgyblion Iesu a hithau yn debyg mewn cymaint o ffyrdd, ond eto roedd y pethau oedd yn wahanol rhyngddyn nhw wedi gyrru eu cyndeidiau ar wahân dros y canrifoedd.

Yr hanes hwnnw am y wraig o Samaria, ynghyd â gwyrth iacháu'r deg gwahanglwyf a dameg y Samariad Trugarog, yw'r tair rhan amlycaf o'r Efengylau lle mae Iesu yn sôn am y Samariaid. Beth barodd i'r Efengylwyr gofnodi'r hanesion hyn, tybed, a sut maen nhw'n berthnasol i ni heddiw?

Os edrychwn ni ar y cyfarfyddiad hwnnw wrth y ffynnon, fe welwn ni bod dau mewn angen y diwrnod hwnnw. Roedd yr anghenion yn wahanol, mae'n wir, ond eto, roedd y naill yn dibynnu ar y llall yn wyneb yr anghenion hynny. Dim ond drwy gynorthwyo ei gilydd y byddai modd diwallu syched Iesu am ddŵr, a syched llawer mwy y wraig. Mae rhywun yn cael ei atgoffa o'r darlun hwnnw o ddau asyn wedi eu clymu wrth ei gilydd gyda rhaff. Roedd hynny'n golygu na allai'r naill na'r llall fwyta'r un o'r ddwy das wair a oedd fymryn allan o'u cyrraedd wrth i'r ddau dynnu i gyfeiriadau croes. Drwy gydweithio, er hynny, a mynd at un das wair gyntaf, ac yna at y llall, roedd modd i'r ddau gael yr hyn roedden nhw ei angen.


Beth wedyn am yr Offeiriad, y Lefiad a'r Samariad ar y ffordd o Jerwsalem i Jericho? Mae rhai wedi ceisio egluro bod y ddau gyntaf wedi peidio mynd at y truan a ddisgynnodd i blith lladron gan y bydden nhw wedi cael eu 'halogi'. Nid oedd y Samariad yn cadw mor ddeddfol at reolau puredigaeth, ac aeth ati i helpu. Tybed a ellid dweud mai un o bwyntiau pwysicaf y ddameg hon oedd bod dangos tosturi at un mewn angen yn bwysicach nag unrhyw reol neu ddefod?


Yn olaf, wrth ystyried mai'r Samariad yn unig a ddaeth yn ôl i ddiolch i Iesu am ei iacháu o'r gwahanglwyf, tybed ai'r peth pwysicaf yno oedd y cyfle i bwysleisio'r rhagfarn amlwg oedd yn y gymdeithas ar y pryd yn erbyn y Samariaid? Arferid edrych i lawr ar y Samariaid fel Iddewon 'anghyflawn', ond yn yr achos hwn, yr un annisgwyl – rhywun yr oedd pobl yn ei ddirmygu – a ddangosodd gwrteisi.

Mewn oes o begynnu, carfanu, a chasineb ar sail y gwahaniaethau sydd rhyngom fel pobl, onid yr adnod sy'n taro tant yn fwy na dim heddiw o blith y tri darlleniad am y Samariaid yw hon: "Ond y mae amser yn dod, yn wir y mae yma eisoes, pan fydd y gwir addolwyr yn addoli'r Tad mewn ysbryd a gwirionedd, oherwydd rhai felly y mae'r Tad yn eu ceisio i fod yn addolwyr iddo." Wrth ystyried y cwestiwn oesol 'A phwy yw fy nghymydog?' a ysgogodd Iesu i ddefnyddio'r Samariad gwrthodedig fel esiampl, pa wahaniaethau, defodau a thraddodiadau, tybed, sy'n ein rhwystro ni rhag helpu ein gilydd a bod yn gymdogion da i'n gilydd yn y byd hwn?



# Ar gyfer y plant





## Y Pasg

Ar ddydd Gwener y Groglith cofiwn sut y dioddefodd Iesu a chael ei groeshoelio. Bu farw a chafodd ei gladdu. Ar Sul y Pasg dathlwn fod Iesu wedi atgyfodi.

**Gweddi** Arglwydd ein Duw, diolchwn i Ti am y Pasg. Amen.



## Cwis y Pasg

1. **Beth gafodd Jwdas am fradychu Iesu?**
   A = 30 darn o arian B= 30 darn o aur C= Tŷ ar lan Llyn Galilea
2. **Pa un o ffrindiau Iesu ddywedodd nad oedd o ddim yn ei adnabod?**
   A= Thomas B= Jwdas C= Pedr
3. **Pwy wnaeth Pilat ei ryddhau yn lle Iesu?**
   A= Barabbas B= Lasarus C= Joseff
4. **Pa ddiwrnod o'r wythnos oedd hi pan gafodd Iesu ei groeshoelio?**
   A= Dydd Llun B= Dydd Iau C= Dydd Gwener
5. **Pwy oedd y cyntaf i weld Iesu yn fyw ar fore Sul y Pasg?**
   A= Y garddwr B= Mair Magdalen C= Pedr ac Ioan
6. **Lle cafodd yr wyau Pasg cyntaf eu gwneud?**
   A= Yr Almaen B= Cymru C= Twrci